

LISTEN ENGAGE REPRESENT



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

CYFLE I WIRFODDOLI

Rôl: Hyfforddwr Cynorthwyol Rhanbarthol

Yn atebol i: Cydlynnydd Rhanbarthol a'r Cydlynnydd Datblygu Talent Cenedlaethol

Cyfrifoldeb allweddol

Bydd y rôl yn golygu gweithio'n rhan o dîm hyfforddi Rhanbarthol. Mae sicrhau cyfathrebu da a hunan-ymwybyddiaeth mewn perthynas â meysydd cysylltiedig â datblygu yn allweddol. Bydd angen i chi fynychu a chyflwyno Gweithgareddau Datblygu Rhanbarthol (3 Diwrnod Datblygu Rhanbarthol y flwyddyn) a arweinig gan y Cydlynwyr Rhanbarthol. Bydd y Gweithgaredd Rhanbarthol yn gyfuniad o ddysgu seiliedig ar sgiliau ac ar addysg. Bydd angen i chi hefyd fynychu digwyddiadau a chystadlaethau er mwyn cyfarfod a dod i adnabod ein hathletwyr a'n hyfforddwyr

Meysydd allweddol;

- Cynorthwyo'r arweinydd rhanbarthol i gyflwyno gweithgareddau datblygu Rhanbarthol a sicrhau bod hyfforddwyr ac athletwyr yn cael profiad cadarnhaol.
- Mynychu sesiynau uwch-sgilio 1 – 2 waith y flwyddyn (rhithiol/wyneb yn wyneb) a chyfarfodydd gyda'r tîm perfformiad a hyfforddi yn ôl yr angen.
- Hyrwyddo gwerthoedd ac amcanion strategaeth ddatblygu Athletau Cymru i'r gymuned hyfforddi ehangach.
- Mynychu Pencampwriaethau Rhanbarthol a Chenedlaethol i gefnogi athletwyr rhanbarthol ac i rwydweithio gyda hyfforddwyr dygnwch yn eich rhanbarth.

Addysg, Sgiliau a Phrofiad

	Hanfodol	Manteisiol
Sgiliau		
Sgiliau cyfathrebu ardderchog	X	
Cymwysterau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus		
Cynorthwydd Hyfforddi Cymwysedig	X	
Gweithio tuag at gymhwyster/trwydded Hyfforddwr Athletau	X	
Cymhwyster Cyngorydd Chwaraeon Glân UKAD http://ukad.coachwisehub.com/store/750681-clean-sport-advisor-course		X

Welsh Athletics Ltd

Cardiff International Sports

Cam pus

Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Athletau Cymru Cyf

Cam pus Chwaraeon Rhyngwladol

Caerdydd

Ffordd Leckwith, Caerdydd CF11 8AZ

029 2064 4870

www.welshathletics.org

office@welshathletics.org

**LISTEN
ENGAGE
REPRESENT**



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Profiad		
Hyfforddwr Cymunedol Gweithredol	X	
Profiad o fentora		X
Rhinweddau Personol		
Gallu teithio dros Gymru (yn ôl yr angen)	X	
Hunan-ysgogiad a gallu gweithio ar eich liwt eich hun	X	
Gweithio'n dda mewn tîm a pharodrwydd i arwain	X	
Hyblyg a gallu addasu i newid yn unol â'r gweithgareddau	X	
Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	X	

Pecyn Cymorth i Wirfoddolwyr

Rôl: Hyfforddwr Cynorthwyol

- Hyd at £30 o gostau teithio am bob diwrnod Datblygu Rhanbarthol
- Cyfleoedd datblygu i hyfforddwyr sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm
- Dillad Athletau Cymru
- Gwahoddiadau VIP i Bencampwriaethau Cenedlaethol Cymru a digwyddiadau eraill blaenllaw Athletau Cymru

Eisiau Gwirfoddoli gydag Athletau Cymru?

Darllenwch y proffil rôl yn ofalus, yn enwedig yr addysg, y sgiliau a'r profiad sy'n hanfodol er mwyn llwyddo cyn mynd i'n gwefan i gychwyn ar eich cais yn:

<https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard>

- Dyddiad cau ceisiadau: **Dydd Llun Hydref 19^{eg} 2020**

Cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd: Yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar Ionawr 28^{ain} 2019

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swyddi gwag cyn y dyddiad cau a bennwyd os derbynnir nifer fawr o geisiadau. Ymgeisiwch yn fuan er mwyn osgoi cael eich siomi.

LISTEN ENGAGE REPRESENT



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â ni:

- Athletau Cymru,
- Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ

Sylwer, rydym ni'n ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'n holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.